Kirsty Williams AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA–(P)/KW/0988/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14 Mawrth 2017

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Chwefror. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am ei waith yn adolygu Adroddiad Blynyddol Estyn 2015/16 ac Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am Fesurau Perfformiad Cyfnod Allweddol 4. Rydym wedi gwneud rhai newidiadau cychwynnol i'r rhain. Bydd rhoi llai o bwyslais ar y Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio fel prif ddangosydd yn arwain at fwy o amrywiaeth o raglenni astudio i ddisgyblion. Bydd y penderfyniad i ganolbwyntio llai ar y Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio, ond cadw'r mesur ochr yn ochr â mesurau eraill megis trothwy cynwysedig Lefel 2, fel rhan o ystod eang o fesurau perfformiad, yn ein galluogi i gael darlun gwell o gyrhaeddiad disgyblion. Bydd hefyd yn rhoi peth dealltwriaeth inni o gyflawni dyfarniadau lefel uwch, yn fwy na'r rhai a nodir ar hyn o bryd gan y mesurau trothwy yn unig.

Fodd bynnag, mae gennyf bryderon ynghylch y system atebolrwydd gyfredol yn ymwneud â chydlyniaeth, canlyniadau anfwriadol a'r berthynas rhwng asesiadau addysgu ac atebolrwydd. Mae'r rhain wedi cael eu rhannu â ni gan benaethiaid.

Rwyf wedi cyhoeddi adolygiad sylfaenol o'n system atebolrwydd a fydd yn cael ei llywio gan y proffesiwn addysgu a rhanddeiliaid eraill. Rwyf am gael system atebolrwydd sy'n:

- Deg - er mwyn sicrhau ein bod yn hyrwyddo tegwch, cynhwysiant, dewis, llwybrau unigol at ddysgu a byth yn colli golwg ar y plant
- Cydlynol - er mwyn caniatáu i bob rhan o'r system weithio gyda'i gilydd heb orgyffwrdd, gyda rolau a chyfrifoldebau clir

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Cymesur - gan sicrhau bod y drefn o roi'r system a'r broses newydd ar waith yn hylaw ac yn gwneud gwahaniaeth a sybsidiaredd gan ganiatáu i'r cyfrifoldeb am atebolrwydd ysgolion fod yn lleol ac wedi'i arwain gan ysgolion hunan-ymwybodol
- Tryloyw - cydnabod ehangder y profiad dysgu ar draws ysgolion a'r gwerth y mae athrawon yn ei ychwanegu yn y dosbarth
- A system sy'n seiliedig ar ein gwerthoedd cyffredin ar gyfer addysg yng Nghymru - hyrwyddo a helpu i wireddu'r pedwar diben addysg a ddisgrifir yn Dyfodol Llwyddiannus.

Bydd yr adolygiad hwn yn arwain at system sydd â rolau a chyfrifoldebau clir, sy'n hyrwyddo cynhwysiant a thegwch, ac yn cydnabod gwerth sy'n cael ei ychwanegu gan athrawon yn yr ystafell ddosbarth, ar draws y system. Bydd prosesau atebolrwydd diwygiedig a dangosyddion perfformiad yn darparu tystiolaeth ar gyfer gwella cyrhaeddiad a chynnydd pob dysgwr ac yn ysgogi hynny.

Byddaf yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd i Aelodau'r Cynulliad.

Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf ar gymhellion addysg athrawon yn dilyn cyhoeddi Addysgu Athrawon Yfory. Mae hwn yn amser allweddol inni ystyried pob agwedd ar recriwtio, cadw a datblygu a'r cymhellion sydd ar waith i ddenu a chadw athrawon o ansawdd yng Nghymru. Fel rhan o'i raglen waith ehangach, yn cefnogi'r broses o ddiwygio Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru, bydd ein Fforwm Arbenigol Addysg Gychwynnol i Athrawon dan gadeiryddiaeth yr Athro John Furlong yn adolygu agweddau ar recriwtio, cadw a datblygu athrawon.

Yn ddiweddar, derbyniais adolygiad mewnol ar weithrediad cymhellion i addysgu ac rwyf wedi'i gyfeirio at y Fforwm Arbenigol Addysg Gychwynnol i Athrawon i'w ystyried. Rwyf wedi cytuno y bydd y cynllun cymhellion ariannol Addysg Gychwynnol i Athrawon presennol yn parhau yn 17/18. Bydd y Fforwm Arbenigol hefyd yn adolygu tystiolaeth o arferion gorau ar gyfer llwybrau gwahanol i addysgu, gan ymchwilio'n llawn i'w potensial i gefnogi, recriwtio a chadw athrawon.

Mae'r cwricwlwm newydd wrthi'n cael ei greu yng Nghymru a byddwn yn seilio dysgu proffesiynol i bawb ar yr arferion gorau sydd ar gael, gan adeiladu'r dyfodol ar safonau proffesiynol sy'n ysbrydoli athrawon i weithio gyda'i gilydd tuag at ragoriaeth - mae angen inni barhau i ddatblygu ein cynnig unigryw i ddenu'r bobl orau i fod yn athrawon a gwneud addysgu yn yrfa gydol oes.

Yn gywir,



Kirsty Williams AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education